



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2010 Rhif 2021 (Cy.189)

PRIDIANNAU TIR, CYMRU

Rheolau Pridiannau Tir Lleol
(Diwygio) (Cymru) 2010

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheolau)

Mae'r Rheolau hyn yn diwygio Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977 (O.S. 1977/985) drwy ddileu o Atodlen 3 (Ffioedd) y cofnod cyfan ar gyfer eitem 5 (chwiliad personol yn y gofrestr gyfan neu mewn rhan ohoni mewn cysylltiad ag un parcel o dir neu, os yw'r chwiliad yn rychwantu mwy nag un parcel, y parseli hynny). Mae'r ffi'n anghydnaws â Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004(1) sy'n gweithredu Cyfarwyddeb y Cyngor 2003/4/EC(2) ynghylch mynediad gan y cyhoedd at wybodaeth amgylcheddol.

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2010 No. 2021 (W.189)

LAND CHARGES, WALES

The Local Land Charges
(Amendment) (Wales) Rules 2010

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Rules)

These Rules amend the Local Land Charges Rules 1977 (S.I. 1977/985) by removing from Schedule 3 (Fees) the whole of the entry for item 5 (personal search in the whole or in part of the register in respect of one parcel of land or, where the search extends to more than one parcel, those parcels). The fee is incompatible with the Environmental Information Regulations 2004(1) which implement Council Directive 2003/4/EC(2) on public access to environmental information.

(1) O.S. 2004/3391.

(2) OJ Rhif L 41, 14.2.2003, t. 26.

(1) S.I. 2004/3391.

(2) OJ No L 41, 14.2.2003, p. 26.

2010 Rhif 2021 (Cy.189)

2010 No. 2021 (W.189)

PRIDIANNAU TIR, CYMRU

LAND CHARGES, WALES

**Rheolau Pridiannau Tir Lleol
(Diwygio) (Cymru) 2010**

**The Local Land Charges
(Amendment) (Wales) Rules 2010**

Gwnaed 8 Awst 2010
*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 10 Awst 2010
Yn dod i rym 31 Awst 2010

Made 8 August 2010
*Laid before the National
Assembly for Wales* 10 August 2010
Coming into force 31 August 2010

Mae Gweinidogion Cymru'n gwneud y Rheolau a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddwyd i'r Arglwydd Ganghellor gan adran 14 o Ddeddf Pridiannau Tir Lleol 1975(1) ac sydd bellach wedi ei freinio ynddynt hwy(2):

The Welsh Ministers make the following Rules in exercise of the power conferred on the Lord Chancellor by section 14 of the Local Land Charges Act 1975(1) and now vested in them(2):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.–(1) Enw'r Rheolau hyn yw Rheolau Pridiannau Tir Lleol (Diwygio) (Cymru) 2010 a deuant i rym ar 31 Awst 2010.

(2) Mae'r Rheolau hyn yn gymwys o ran Cymru.

Title, commencement and application

1.–(1) The title of these Rules is The Local Land Charges (Amendment) (Wales) Rules 2010 and they come into force on 31 August 2010.

(2) These Rules apply in relation to Wales.

Diwygio Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977

2. Yn Atodlen 3 (Ffioedd) i Rheolau Pridiannau Tir Lleol 1977(3), hepgorir eitem 5 (chwiliad personol yn y gofrestr gyfan neu mewn rhan ohoni).

Amendment to the Local Land Charges Rules 1977

2. In Schedule 3 (Fees) to the Local Land Charges Rules 1977(3), item 5 (personal search in the whole or in part of the register) is omitted.

(1) 1975, p.76. Diwygiwyd adran 14 gan adran 158 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 (p.42) a chan adran 15(1) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 (p.4) a pharagraffau 82 ac 85(1) o Ran 1 o Atodlen 4 iddi.

(2) Trosglwyddwyd pŵer yr Arglwydd Ganghellor dros wneud rheolau ar gyfer rhagnodi ffioedd a'r dull o dalu ffioedd, o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O.S. 2004/3044). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(3) O.S. 1977/985. Amnewidiwyd Atodlen 3 yn ei chyfanrwydd gan O.S. 2003/2502.

(1) 1975, c.76. Section 14 was amended by section 158 of the Local Government and Housing Act 1989 (c.42) and by section 15(1) of, and paragraphs 82 and 85(1) of Part 1 of Schedule 4 to, the Constitutional Reform Act 2005 (c.4).

(2) The power of the Lord Chancellor to make rules for prescribing fees and the manner of payment of fees was transferred, in relation to Wales, to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044). The functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers under section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(3) S.I. 1977/985. Schedule 3 was substituted in its entirety by S.I. 2003/2502.

Jane E. Hutt

Y Gweinidog dros Fusnes a'r Gyllideb, un o
Weinidogion Cymru

Minister for Business and Budget, one of the Welsh
Ministers

8 Awst 2010

8 August 2010

©[©] Hawlfraint y Goron 2010

© Crown copyright 2010

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.